# CYNGOR LLYFRAU CYMRU
# Tendr
# Gwasanaeth Newyddion Digidol Cymraeg
Ebrill 2026–Mawrth 2030
# Canllawiau

**1. AMCANION**

Amcan y cynllun hwn yw sicrhau gwasanaeth newyddion digidol *cyson* a gwreiddiol trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol i bliwraliaeth a phroffesiynoldeb newyddiaduraeth Gymraeg ac i amrywiaeth cynnwys a chyfrwng y deunydd darllen sydd ar gael yn yr iaith, gyda'r nod o gynyddu nifer y bobl, ac yn enwedig pobl ifainc, sy'n darllen y wasg Gymraeg.

**2. GWELEDIGAETH**

Disgwylir i'r gwasanaeth newyddion rannu gweledigaeth glir ynglŷn â'r math o gynnwys fyddai cynulleidfa(oedd) Cymraeg ei eisiau a'i angen yn y cyfnod hwn a pha lwyfannau fyddai fwyaf effeithiol i gyrraedd cynulleidfa(oedd) o'r fath gyda golwg arbennig ar gynulleidfaoedd ifanc.

**3. Y CYNLLUN**

3.**1 O fewn yr adnoddau sydd ar gael, disgwylir i'r gwasanaeth newyddion digidol allu cyflwyno'r weledigaeth uchod mewn modd sy'n:**

(Cynnwys)

- darparu cynnwys golygyddol sydd, yn bennaf, yn ddeunydd gwreiddiol Cymraeg;
- cael ei ddiweddaru'n rheolaidd, gyda storïau newydd, wedi eu hysgrifennu'n dda, eu golygu'n ofalus, a'u dylunio mewn modd sy'n briodol i'r cyfrwng;
- rhoi llwyfan bywiog i drafod amrywiaeth o safbwyntiau, gan ofalu peidio â rhagfarnu yn erbyn neb ar sail barn wleidyddol, safbwynt crefyddol ayb. (Gweler yr amodau.)
- trafod y materion hyn mewn modd mor gyflawn ag sy'n bosibl yng nghyd-destun y gyllideb sydd ar gael**;**

3.2 **Disgwylir i'r gwasanaeth newyddion digidol:**

(Cyfrwng)

- gynnal gwasanaeth rhyngweithiol, sydd â gwefan ganolog, sy'n caniatáu i ddarllenwyr rannu barn ac ymateb i storïau;
- ddefnyddio amrywiaeth o lwyfannau digidol i gyfathrebu'r newyddion yn amserol ac effeithiol ac i wneud y gwasanaeth mor ddiddorol a bywiog â phosibl;
- ddiweddaru ei dechnoleg wrth i safonau a disgwyliadau ddatblygu;
- fod yn hyblyg i fabwysiadu llwyfannau newydd fel y maent yn ymsefydlu;
- gyrraedd cynulleidfa eang a chadw cyfrif meintiol ac ansoddol o gyrhaeddiad y gwahanol lwyfannau.

**Er gwybodaeth:** dylid cynllunio yn y lle cyntaf ar gyfer gwasanaeth sy'n anelu at gyfartaledd o 12,000 o ymweliadau dyddiol â'r wefan a chyfartaledd hyd ymweliad o o leiaf 1 munud.

## 4. PA FEINI PRAWF A DDEFNYDDIR WRTH YSTYRIED CEISIADAU?

| | | |
|---|---|---|
| 4.1 | Y weledigaeth ynglŷn a'r math o gynnwys mae cynulleidfa(oedd) Cymraeg eisiau a'i angen yn y cyfnod hwn, y meysydd y byddwch yn gohebu ynddynt, y cynnwys y byddwch yn ei gynhyrchu a'ch cynlluniau i hyrwyddo a thyfu'r gwasanaeth ymhlith cynulleidfa amrywiol, yn arbennig cynulleidfa ifanc. | 30% |
| 4.2 | Dyfnder ac ehangder y profiad newyddiadurol, yn ogystal â'r weledigaeth olygyddol gyffredinol ar gyfer y gwasanaeth. | 25% |
| 4.3 | Polisïau a safonau o ran golygu, dylunio a rhannu deunydd mewn cyd-destun digidol, yr ymrwymiadau staffio i wireddu'r weledigaeth honno, a phrosesau clir i sicrhau diogelwch seibr a rheolaeth data. | 20% |
| 4.4 | Cadernid a hyfywedd y model ariannol a rheolaethol. | 20% |
| 4.5 | Cynlluniau eraill a all gynnig gwerth am arian ychwanegol i'r grant. | 5% |

4.1 Y weledigaeth ynglŷn a'r math o gynnwys mae cynulleidfa(oedd) Cymraeg eisiau a'i angen yn y cyfnod hwn, y meysydd y byddwch yn gohebu ynddynt, y cynnwys y byddwch yn ei gynhyrchu a'ch cynlluniau i hyrwyddo a thyfu'r gwasanaeth ymhlith cynulleidfa amrywiol, yn arbennig cynulleidfa ifanc. Dylech nodi:

- Eich gweledigaeth ar gyfer y math o gynnwys mae cynulleidfa(oedd) Cymraeg eisiau a'i angen yn y cyfnod hwn, y meysydd y byddwch yn gohebu ynddynt a'r cynnwys y byddwch yn ei gynhyrchu.
- Cynllun marchnata a hyrwyddo sydd yn cynnwys:
  - tystiolaeth glir sy'n ategu dichonolrwydd y cynllun(iau);
  - ymchwil marchnad;
  - manylion am bartneriaethau;
  - ymrwymiadau gan gyrff ariannu eraill;
- Dylai hyn gynnwys enwau a CVs yr unigolion a fydd yn allweddol i hyrwyddo'r gwasanaeth (y tu hwnt i rannu cynnwys), sut y bwriedir defnyddio'r gwahanol lwyfannau i gyrraedd a thyfu gwahanol gynulleidfaoedd; yn ogystal â manylion y strwythurau rheoli perthnasol a chrynodeb o'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer hyrwyddo'r gwasanaeth, yn arbennig i gynulleidfa ifanc.

4.2 Dyfnder ac ehangder y profiad newyddiadurol, yn ogystal â'r weledigaeth newyddiadurol gyffredinol ar gyfer y gwasanaeth. Dylech:

- amlinellu'r weledigaeth olygyddol gyffredinol ar gyfer y gwasanaeth a chynnwys enwau a CVs yr unigolion a fydd yn allweddol i ddarparu cynnwys newyddiadurol y gwasanaeth, yn ogystal â manylion y strwythurau rheoli perthnasol;
- egluro sut y byddwch yn cynhyrchu newyddiaduraeth sydd yn berthnasol i bob ardal yng Nghymru, a chynnwys sydd yn cyrraedd cynulleidfaoedd amrywiol eu diddordebau;
- egluro sut y byddwch yn gweithio gyda chymunedau penodol i sicrhau bod y newyddion a gynhyrchir yn amrywiol ac yn cynrychioli'r Gymru Gymraeg yn ei holl amrywiaeth;
- ddarparu manylion y staff fydd yn cael eu cyflogi, a'r trefniadau ar gyfer hyfforddi a chloriannu rheolaidd.

4.3 Gweledigaeth a safonau o ran golygu, dylunio a rhannu deunydd mewn cyd-destun digidol, yr ymrwymiadau staffio i wireddu'r weledigaeth honno, a phrosesau clir i sicrhau diogelwch seibr a rheolaeth data. Dylech nodi:

- manyleb y systemau a ddefnyddir neu y bwriedir eu defnyddio i yrru'r wefan a'r gwasanaeth craidd;
- eich cynlluniau i ailfuddsoddi yn nhechnoleg y wefan dros gyfnod y prosiect a mabwysiadu llwyfannau newydd;
- prosesau golygu i sicrhau ansawdd iaith;
- manylion y staff eraill sydd ar gael i gynghori ar elfennau megis delweddau, hawliau a thechnoleg;
- cynlluniau ar gyfer adferiad yn sgil ymosodiad seibr neu fethiant systemau;
- polisïau llawn ar gynhwysiant, amrywiaeth a hygyrchedd;
- prosesau i sicrhau diogelwch seibr ac unrhyw achrediad sydd gennych.

Dylai hyn gynnwys enwau a CVs yr unigolion a fydd yn allweddol i gynnal safonau golygyddol o ran cywirdeb iaith a ffeithiau, ac a fydd yn cynnig barn ac arweiniad o ran addasrwydd y cynnwys gweledol/clywedol a dyluniad y deunydd a rennir.

4.4 Cadernid a hyfywedd y model ariannol a rheolaethol.

- Dylai cynlluniau'r cwmni gyfateb i faint y gyllideb sydd ar gael;
- Crynodeb o gyllideb y cwmni/corff am y 4 blynedd nesaf gan ddangos sut y bydd adnoddau'r corff yn cael eu defnyddio i gyflawni'r cytundeb, gan nodi:
  - Rhagamcan o'r cyfrif incwm a gwariant (*projected*) y prosiect (gwasanaeth newyddion digidol) dros y 4 blynedd;
  - Disgrifiad o'r adnoddau (staffio, eiddo ac eraill) y bwriedir eu neilltuo er mwyn gwireddu'r cynllun. Wrth lunio'r disgrifiad, rhaid gwahaniaethu rhwng elfennau sydd i'w priodoli i'r cynllun yn unig ac elfennau sy'n perthyn i weithgarwch arall y cwmni neu'r bartneriaeth, yn enwedig lle mae adnoddau yn cael eu rhannu rhwng y ddau;
  - Faint o incwm ychwanegol y byddwch yn disgwyl ei gynhyrchu ac o ba ffynonellau (hysbysebion, nawdd, prosiectau allanol);
  - Asesiad Risg;
  - Manylion am ymrwymiad eich buddsoddwyr/Bwrdd;
  - Eglurhad o sut y byddai'r model yn raddadwy (*scalable*) petai rhaid cwtogi (neu bod cyfle i gynyddu) cyllid.
  - Disgrifiad o sut y bydd cyllid yn cael ei reoli, a sut y gallwch sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cytundeb hwn. Disgrifiwch reolaeth ariannol y cwmni gan gynnwys systemau a phrosesau i sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw ddeddfwriaeth a defnydd gorau o arian cyhoeddus.

4.5 Cynlluniau eraill a all gynnig gwerth am arian ychwanegol i'r grant.

- Crynodeb 1 ochr A4 o unrhyw gynlluniau eraill nad ydynt efallai yn ganolog i'r gwasanaeth newyddion ond a fydd yn cynnig gwerth ychwanegol i'r grant hwn.

**Disgwylir gwahodd pob ymgeisydd i gyfweliad, ond os bydd ymgeisydd yn sgorio llai na hanner y marc gofynnol yn unrhyw un o'r meini prawf a amlinellir yn Adran 3 uchod, cedwir yr hawl i beidio â'u gwahodd i gyfweliad.**

5. **PWY SY'N GYMWYS I YMGEISIO?**

Croesewir ceisiadau gan unrhyw fenter/gwmni corfforedig, gan gynnwys cleientiaid cyfredol Cyngor Llyfrau Cymru; cwmnïau nad ydynt yn derbyn arian cyhoeddus ar hyn o bryd, a chwmnïau newydd. Croesewir hefyd geisiadau ar y cyd gan fwy nag un partner. Yn yr achosion hynny, disgwylir i'r cais ddangos sut y bydd y partneriaid yn cydweithio i sicrhau llwyddiant y gwasanaeth gan enwi'r prif bartner a fydd yn gyfrifol am weinyddu'r cytundeb.

Ni ellir ystyried ceisiadau gan gyrff gwirfoddol, cymdeithasau a grwpiau eraill nad ydynt wedi'u hymgorffori, nac unigolion, gan gynnwys masnachwyr unigol.

6. **BETH SYDD ANGEN EI GYFLWYNO?**

Dylai pob cais gyrraedd CLlC yn electronig ar ffurf Word a/neu Excel erbyn **hanner dydd, dydd Mawrth, 16 Medi 2025** (mae croeso i ymgeiswyr anfon copïau PDF yn ogystal ond mae fformatau y mae modd eu golygu yn angenrheidiol er mwyn hwyluso gweinyddiad y ceisiadau). Dylid anfon y cais drwy e-bost at arwel.jones@llyfrau.cymru. Dylid nodi TENDR GWASANAETH NEWYDDION yn y maes testun a gellir disgwyl cydnabyddiaeth i'r e-bost o fewn yr awr.

**Copïau papur**

Bydd angen i 3 chopi papur o'r cais a e-bostiwyd gyrraedd erbyn **hanner dydd, dydd Iau, 18 Medi**. Dylai TENDR GWASANAETH NEWYDDION gael ei nodi'n glir ar y pecyn a dylai gael ei gyfeirio at sylw Arwel Jones, Pennaeth Datblygu Cyhoeddi, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, SY23 2JB.

**Dylai pob cais gynnwys:**

- y ffurflen grynodeb (isod), wedi'i llenwi, ei dyddio a'i llofnodi;
- adrannau penodol ar bob un o'r pum maen prawf a amlinellwyd uchod (Adran 3) gan gadw yr egwyddorion a amlinellir yn Adrannau 2.1 a 2.2 mewn cof bob amser.

***Cwmnïau sy'n bod eisoes***

Yn achos cwmnïau neu bartneriaethau sydd wedi eu sefydlu eisoes, dylai'r cais gynnwys:

- cyfrifon incwm a gwariant a mantolen y cwmni ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf, gan gynnwys y cyfrifon diweddaraf;
- disgrifiad llawn o'r berthynas rhwng y gweithgarwch arfaethedig a gweithgareddau eraill y cwmni/partneriaeth.

***Cwmnïau newydd***

Yn achos cwmnïau neu bartneriaethau newydd, dylai'r cais gynnwys:

- tystiolaeth gadarn o'r buddsoddiad sylfaenol sydd yn sail i'r cais.

7. **Y SEFYLLFA ARIANNOL A MAINT Y NAWDD**

Bydd cyllideb o £190,000 y flwyddyn ar gael ar gyfer y cyfnod Ebrill 2026 i Fawrth 2027, ac am weddill cyfnod y tendr, ond mae'r arian hwn yn rhan o'r Grant Cyhoeddi a ddaw gan Lywodraeth Cymru ac mae'n ddibynnol ar barhad y cyllid hwnnw. Gall y Grant Cyhoeddi leihau yn ystod y cyfnod, a gall unrhyw ostyngiad yn lefel y Grant Cyhoeddi yn cael effaith uniongyrchol ar y grant hwn. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o hynny. Dylid gwneud y cais ar sail grant blynyddol o £190,000, ond, fel y nodwyd uchod, dylai'r ymgeiswyr nodi sut y byddent yn ymdopi â lefel grant a fyddai'n is na hynny.

8. **SUT Y BYDD YR ARIAN YN CAEL EI DDOSRANNU?**
Mae’r Cyngor Llyfrau yn cadw’r hawl i ddyfarnu’r grant yn ôl doethineb yr Is-bwyllgor, i beidio â dyfarnu’r grant o gwbl neu i gyfyngu ar gyfnod y tendr.

9. **SUT Y BYDD Y CEISIADAU’N CAEL EU CLORIANNU?**
Bydd Cyngor Llyfrau Cymru yn sefydlu panel arbennig i ystyried y ceisiadau a fydd yn cynnwys aelodau o’r Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi (Cymraeg) ac arbenigwyr annibynnol. Bydd y Panel hwn yn gweithredu ar ran y Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi. Cloriennir y ceisiadau fel â amlinellwyd uchod. Os na fydd y cais sy’n dod i’r brig yn bodloni’r Panel yn llwyr, ceidw’r Cyngor Llyfrau’r hawl i drafod gyda’r ymgeisydd/wyr perthnasol unrhyw argymhellion neu amodau a gynigiwyd gan y Panel er mwyn gallu cynnig gwasanaeth a fyddai’n bodloni’r gofynion.

9. **AMSERLEN**
**Hysbysebu:** wythnos 30 Mehefin 2025
**Dyddiad Cau:** Hanner dydd, 16 Medi 2025
**Dyddiad Cyfweliadau:** wythnos 29 Medi 2025

10. **CWESTIYNAU PELLACH**
Os ydych am drafod y tendr dylech gysylltu ag Arwel Jones, Adran Datblygu Cyhoeddi, ar 01970 624151 neu drwy e-bost: arwel.jones@llyfrau.cymru

# CYNGOR LLYFRAU CYMRU
# Tendr Gwasanaeth Newyddion Digidol Cymraeg
2026–30
## Amodau: Crynodeb
*Bydd cytundeb llawn yn cael ei baratoi ar ddiwedd y broses.*

1. Gwneir y cynnig grant ar sail yr wybodaeth yn y cais ac unrhyw ohebiaeth ategol. Mae Cyngor Llyfrau Cymru (CLlC) yn cadw'r hawl i ailystyried y grant a ddyfarnwyd mewn achosion lle nad yw'r gwaith sy'n cael ei ariannu yn cyfateb i'r amserlen neu fanylion eraill a roddwyd ar y ffurflen gais, neu y cytunwyd arnynt fel arall.

2. Os na fydd y dibenion y cynigiwyd y grant ar eu cyfer yn cael eu cyflawni'n amserol, neu mewn achos lle nad oes cydymffurfiaeth â'r amodau perthnasol, mae'n bosibl y bydd CLlC yn gofyn i'r derbynnydd ddychwelyd y swm cyfan, neu ran o unrhyw grant a allai fod wedi'i dalu.

3. Bydd derbynnydd y grant yn cydymffurfio ag unrhyw amodau a gofynion ychwanegol ar gyfer y cynllun, sydd wedi'u nodi yn y cynnig grant ffurfiol, mewn unrhyw lythyr eglurhaol neu yn y cytundeb llawn. Dylai'r Cyhoeddwr gyfeirio at y cytundebau/adroddiadau ariannu unigol.

4. Bydd disgwyl i'r derbynnydd adrodd yn chwarterol (neu'n amlach os bydd gofyn). Cytunir ar y manylion wrth lunio'r cytundeb terfynol ond fe fyddant o leiaf yn cynnwys:
    - Cyrhaeddiad digidol
    - Cyfanswm ac amrywiaeth y cynnwys
    - Amrywiaeth y cyfranwyr
    - Incwm masnachol
    - Staffio

5. Mae'n rhaid arddangos y gydnabyddiaeth ganlynol yn amlwg mewn lleoliad y cytunwyd arno ymlaen llaw gyda'r Adran Datblygu Cyhoeddi: 'Mae'r cyhoeddwr yn cydnabod cymorth ariannol Cyngor Llyfrau Cymru.' Yn ogystal, pan fydd logos cyllidwyr/noddwyr/cefnogwyr eraill yn ymddangos yn y cyhoeddiad, mae'n rhaid i'r cyhoeddwr gynnwys logo CLlC, yn ogystal â'r geiriau uchod. Dylid rhoi cydnabyddiaeth hefyd i gymorth ariannol CLlC ym mhob digwyddiad cyhoeddus sy'n hyrwyddo neu'n marchnata'r gwasanaeth. Gallai methiant i gynnwys cydnabyddiaeth briodol arwain at ostyngiad o hyd at 10% o'r grant sy'n daladwy. Ni ddylid defnyddio cydnabyddiaeth o'r grant hwn nac unrhyw gyfeiriadau eraill at CLlC mewn unrhyw ffordd sy'n awgrymu bod CLlC yn ymgymryd â chyfrifoldeb, neu'n derbyn cyfrifoldeb, i drydydd parti am ddyledion neu rwymedigaethau derbynnydd y grant (gweler rhif 8).

6. Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth bellach o wariant, ac os na fydd yr wybodaeth yn ddigonol, i gynnal archwiliad o unrhyw wybodaeth ariannol.

7. Dylid rhoi gwybod i'r Cyngor am unrhyw gymorth ariannol sy'n cael ei dderbyn ar gyfer cynnal y gwasanaeth o unrhyw ffynhonnell ar wahân i Gyngor Llyfrau Cymru.

8. Bydd safon y gwaith golygu a dylunio ac effeithiolrwydd cyffredinol y dechnoleg yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar y grant sy'n cael ei gynnig a'r grant terfynol sy'n cael ei dalu. Mewn achosion lle ystyrir bod safon y gwaith golygu neu'r gwaith dylunio neu weithrediad y dechnoleg yn is na'r safon dderbyniol, gellir lleihau'r grant. Gall tanberfformiad, e.e. ym maes

golygu, dylunio neu dechnoleg, arwain at drafodaeth bellach gyda swyddogion y Cyngor Llyfrau. Os na fydd y safon yn dderbyniol, cedwir yr hawl i osod y tendr dan amodau arbennig, lle bydd yn cael ei fonitro'n gyson hyd nes y bydd yr ansawdd yn cyrraedd y safonau derbyniol. Ystyrir unrhyw fethiant o'r fath wrth drafod ceisiadau am grant yn y dyfodol.

9. Mae'r cyhoeddwr yn cytuno, gyda'r Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi, a'u holynwyr mewn teitl, y bydd ef, y cyhoeddwr, bob amser o hyn ymlaen yn arbed ac yn indemnio'r Is-bwyllgor rhag pob cost sy'n gysylltiedig ag unrhyw weithred a allai arwain at dorri unrhyw un o gyfreithiau Cymru a Lloegr.

10. Bydd y Cyngor yn cadw, yn defnyddio neu yn prosesu data personol ac, o bosib, ddata personol sensitif, amdanoch chi, fel y diffinnir y termau hyn yn Neddf Gwarchod Data 2018.

11. Os bydd newid yn y Grant Cyhoeddi a ddyfernir i'r Cyngor Llyfrau, bydd y Cyngor Llyfrau yn rhoi rhybudd o'r newid posibl i ddeilydd y grant a ddyfernir yn unol â'r cytundeb hwn cyn gynted ag y bo modd, ac yn rhoi union fanylion unrhyw newidiadau iddo o leiaf 1 mis cyn gweithredu'r newid hwnnw.

12. Mae'r Cyngor Llyfrau yn darparu grant, ac felly yn rhydd o unrhyw Dreth ar Werth, ond dylai unrhyw ymgeisydd ystyried effaith hyn ar ei sefyllfa ariannol, ac ni chymer Cyngor Llyfrau Cymru unrhyw gyfrifoldeb am golledion o ganlyniad i Dreth ar Werth.

13. Yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, dylid sicrhau nad yw unrhyw wasanaethau sydd yn cael eu darparu yn trin y Gymraeg yn eilradd i'r Saesneg.

14. Ni ddylid defnyddio unrhyw arian a ddarperir ar gyfer:-
    - Hyrwyddo plaid wleidyddol
    - Hyrwyddo barn grefyddol neu wrthgrefyddol
    - Gamblo
    - Pornograffi
    - Cynnig gwasanaethau rhywiol
    - Prynu offer cyfalaf (ar wahân i achosion lle nodir hynny yn glir yn y cais)
    - Unrhyw gyngor cyfreithiol yn ymwneud â'r cais
    - Unrhyw gostau paratoi ar gyfer y cais
    - Unrhyw weithgaredd anghyfreithlon
    - Unrhyw weithgaredd, y tu hwnt i newyddiaduraeth deg a diduedd, a all ddwyn anfri ar y Cyngor Llyfrau.

## Gwasanaeth Newyddion Digidol Cymraeg 2026–2030

## Cais am Grant: Ffurflen Grynodeb

### Yr Ymgeisydd

| | |
|---|---|
| Enw’r cwmni sy’n ceisio am grant: | |
| Cyfeiriad: | |
| Enw Cyswllt: | |
| Swydd: | |
| Rhifau Ffôn: | |
| E-bost: | |

Llofnod: ______________________________

Enw: ______________________________

Swyddogaeth: ______________________________

Dyddiad: ______________________________

| |
|---|
| Y Cynllun:<br>Cyflwyniad 1 ochr A4 i’r cynllun a’r hyn y gobeithir ei gyflawni gyda’r grant dros gyfnod y tendr. |

Mae copi Saesneg o’r canllawiau hyn ar gael.